sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Troswyr ffonau symudol

Ymgynghoriad ar ba mor bell y gellir estyn amrediad troswyr ffonau symudol heb drwydded ac ar fesurau i wella gwybodaeth i gwsmeriaid.

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Mai 2021
Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 28 Gorffennaf 2021

# 1. Trosolwg

Mae gwasanaethau symudol wedi mynd yn rhan gynyddol bwysig o'n bywydau bob dydd boed hynny: i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, defnyddio gwasanaethau ar-lein neu gynnal busnes. Law yn llaw â hyn mae disgwyliad cynyddol y bydd gwasanaethau symudol yn gweithio'n ddibynadwy ble bynnag yr ydym.

Er bod darpariaeth symudol yn parhau i wella gyda buddsoddiad mewn safleoedd symudol newydd a thechnoleg symudol well, mae set benodol o heriau ynghlwm wrth gyflawni darpariaeth dda dan do. Mae hyn oherwydd bod lefelau signal symudol yn lleihau wrth iddynt fynd i mewn i adeiladau. Mae heriau ynghlwm wrth gyflawni darpariaeth symudol dda mewn ardaloedd gwledig sydd â phoblogaeth wasgarog hefyd lle mae gorsafoedd trawsyrru symudol yn gyffredinol ymhellach i ffwrdd o'r defnyddiwr ac yn darparu signalau symudol gwannach ac felly llai dibynadwy.

Un ateb i'r rhai sy'n ei chael yn anodd cyflawni darpariaeth dda dan do yw'r defnydd o droswr ffonau symudol. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn chwyddo signalau rhwng gorsaf drawsyrru gweithredwr y rhwydwaith a'r ffôn symudol ac felly gellir defnyddio nhw i fwyhau darpariaeth mewn sefyllfaoedd pan fo'r signal fel arall yn wan.

Yn 2018, lluniodd Ofcom reoliadau i alluogi pobl a busnesau i weithredu troswyr ffonau symudol statig at ddefnydd dan do ar sail eithriad rhag gorfod cael eu trwyddedu, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion technegol penodol. Roedd hyn yn cynnwys bod y ddyfais ond yn trosi signal un gweithredwr rhwydwaith symudol ar y tro ac, am y rheswm hon, rydym yn cyfeirio at y rhain fel troswyr 'gweithredwr unigol'. Ein hamcan oedd rhoi opsiwn i bobl wella darpariaeth symudol yn eu cartrefi eu hunain. Gwnaethom ystyried y byddai hyn hefyd yn helpu lleihau'r tebygolrwydd o bobl yn prynu troswyr anghyfreithlon anawdurdodedig heb ymwybod a allai achosi ymyriad andwyol i'r rhwydweithiau ffonau symudol neu ddefnyddwyr sbectrwm eraill.

Yn y ddogfen hon, rydym yn ystyried p'un a oes unrhyw newidiadau y gallai Ofcom eu gwneud er mwyn darparu mwy o opsiynau i bobl a busnesau wella darpariaeth symudol yn eu cartrefi a dileu unrhyw gyfyngiadau diangen, yn ogystal â darparu mwy o wybodaeth i gwsmeriaid ynglŷn â pha ddyfeisiau sydd i'w heithrio rhag gorfod cael eu trwyddedu.

Nid ydym yn ymdrin â throswyr ffonau symudol at ddefnydd awyr agored yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r defnydd awyr agored o droswyr ffonau symudol yn parhau'n anghyfreithlon oni bai eu bod yn cael eu darparu a'u gweithredu o dan reolaeth gweithredwr rhwydwaith symudol ("MNO") (o dan ei drwydded Deddf Telegraffiaeth Ddiwifr).

Nid ydym yn ystyried troswyr symudol y bwriedir iddynt gael eu defnydd wrth symud (megis mewn cerbyd) ychwaith yn yr ymgynghoriad hwn. Ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion technegol penodol, mae'r rhain eisoes wedi'u heithrio rhag gorfod cael eu trwyddedu.

## Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

Rydym yn bwriadu estyn amrediad y troswyr sydd ar gael i bobl eu prynu a'u gosod eu hunain heb orfod cael eu trwyddedu. Yn benodol, trwy ganiatáu i fathau penodol o droswr (troswyr 'darparwr penodol' a 'darparwyr lluosog') a fydd yn gweithredu ar amleddau mwy nag un gweithredwr symudol gael ei heithrio rhag gorfod cael eu trwyddedu, ar yr amod eu bod yn bodloni ein gofynion technegol arfaethedig.

Rydym hefyd yn ceisio barn a oes gwerth i Ofcom gyhoeddi rhestr o droswyr ffonau symudol a all gael eu defnyddio heb orfod cael eu trwyddedu ar ein gwefan. Rydym yn cynnig y caiff dyfais ei rhestru ar ein gwefan dim ond os wedi cael ei ddangos (gan ddilyn profi gan gwmni profi achrededig ac yn unol â safon brofi wirfoddol a gynhyrchir gan Ofcom) ei bod yn cydymffurfio â gofynion technegol ein cyfundrefn eithriad rhag gorfod cael trwydded. Dylai hyn helpu pobl i nodi troswyr ffonau symudol statig dan do a all gael eu defnyddio'n gyfreithlon heb orfod cael eu trwyddedu.

**Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.**

Rydym yn gwahodd unrhyw sylwadau ar y cynigion yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar **28 Gorffennaf 2021** ac yn disgwyl cyhoeddi ein casgliadau tua diwedd 2021.